



Tafarn yr Heliwr Cynllun Busnes, Gorffennaf 2018

Cymdeithas Budd Cymunedol a gofrestrwyd dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol Rhif Cofrestru: RS007747.



Cynnwys

Rhagair oddi wrth y Bwrdd Cysgodol		
Crynodeb Gweithredol		i
1	Disgrifiad o'r Busnes	1
2	Y Farchnad a'r Strategaeth i Sicrhau Llwyddiant	6
3	Y Gystadleuaeth	11
4	Cynllun Marchnata	12
5	Datblygu'r Adeilad a'r Busnes	15
6	Rheolaeth a Rhedeg y Busnes	19
7	Cynaliadwyedd a Rhagolygon Ariannol	23
8	Risgiau Allweddol	35
Atodiadau Atodiad 1 Rheolau Tafarn yr Heliwr Cyf. Atodiad 2 Rhagdybiaethau Daliadaeth Atodiad 3 Rhagamcanion Cyfrif Elw a Cholled a Llif Arian		

Rhagair oddi wrth y Cyfarwyddwyr Cysgodol

Mae Tafarn yr Heliwr wedi'i lleoli yng nghanol tref Nefyn. Roedd unwaith yn dafarn fywiog a phrysur ac yn denu pobl o bell ac agos.

Mae'r dafarn wedi cau ers blynnyddoedd ac er ei bod ar werth ers 2016, mae'r sefyllfa yn parhau i fod yr un fath.

Ym mis Ionawr 2018 penderfynodd grŵp o bobl leol fod angen gwneud rhywbeth i newid hyn.

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod prynu'r dafarn fel cymuned.

Daeth dros 80 o bobl i'r cyfarfod hwnnw a chafwyd cefnogaeth frwd.

Ffurfiwyd Cymdeithas Er Budd y Gymuned er mwyn codi arian i brynu, adnewyddu ac ailagor Tafarn yr Heliwr.

Trefnwyd digwyddiadau yn lleol i godi arian, a chynhaliwyd stondinau gwybodaeth a sesiynau cwestiwn ac ateb.

Mewn dim ond deufis roedd mwy na 450 o fuddsoddwyr wedi prynu dros £82,000 o gyfranddaliadau cymunedol gyda'r bwriad o brynu Tafarn yr Heliwr a diogelu ei dyfodol fel tafarn gymunedol.

Ym mis Gorffennaf 2018, cynigwyd £85,000 am y dafarn a derbyniwyd ein cynnig.

Mae ein nod yn un syml.

Credwn fod tref Nefyn angen ailagor canolbwynt y Stryd Fawr, Tafarn yr Heliwr er mwyn i ni brofi Nefyn brysur a bywiog unwaith eto.

Bydd Tafarn yr Heliwr yn:

- **Cynnig cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddi a chyflogaeth ddiogel** gan greu mwy o gyfleoedd i bobl fyw, gweithio a dysgu yn Nefyn.
- **Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg** gan rannu a dathlu'r cyfoeth o hanes morwrol sydd gan Nefyn.
- **Bod yn gatalydd i adfywio Stryd Fawr, Nefyn** gan ddod â mwy o bobl i ganol y dref a gweithio i ddenu busnesau newydd i weithdai ac unedau gwag ac i fuddsoddi yn natblygiad y dref.
- **Mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol gan annog ysbryd cymunedol** wrth greu hwb anffurfiol ynghanol y dref fydd â drws agored i bawb o bob oedran a chefnidir.

- **Cryfhau economi Nefyn** drwy ddefnyddio cynnyrch gan fusnesau lleol ac ail-fuddsoddi yr holl elw yn ôl i'r gymuned er mwyn gwneud y dref yn lle gwell i fyw ac i weithio ynddi.
- **Cryfhau cyswllt Nefyn â'r byd** gan gynnig lleoliad gweithio â chysylltiad i'r we yn ogystal â rhannu a dathlu stori Tafarn yr Heliwr gyda chynulleidfa ehangach.
- **Meithrin cydweithio rhwng busnesau bwyd a diod Nefyn** gan agor marchnad newydd i'w cynnyrch a chynnig plattform newydd i'w brand.
- **Gwneud y mwyaf o'r diwydiant twristiaeth** gan sefydlu canol tref Nefyn fel lleoliad penodol ar gyfer ymwelwyr a chynnig llety fforddiadwy o ansawdd uchel.
- **Lleihau gwastraff** gan annog prynu yn lleol, a lleihau'r defnydd o danwyddau ffosil, ailgylchu deunyddiau a defnyddio llafur a sgiliau pobl leol.
- **Rhannu gwybodaeth am y tirwedd a'r amgylchedd lleol**, annog cyfleoedd i bobl leol ac ymwelwyr i ymweld a cherdded Llwybr yr Arfordir a phrofi gweithgareddau awyr-agored fel padl fyrddio a syrffio.
- **Hyrwyddo Nefyn fel hwb diwylliannol** gan gynnwys digwyddiadau i arddangos a hyrwyddo'r sîn gerddoriaeth a chelfyddydol fyw yn lleol a thu hwnt.

Elin Angharad Davies

Ysgrifennydd y Cwmni

Bwrdd Cysgodol

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Caiff hefyd ei ran gyllido gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (NDA) a Chyngor Gwynedd.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r prosiect hwn yn adlewyrchu gweledigaeth gymunedol ar gyfer Nefyn. Erbyn 2025, y nod yw creu hwb neu ganolbwynt cymunedol cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau a fydd yn cynnig:

- llety rhesymol i ymwelwyr;
- prydau ysgafn, diodydd a choffi;
- lle i gynnal digwyddiadau a nosweithiau cymdeithasol cynnig man cysurus a chroesawgar i grwpiau cymunedol a phobl leol o bob oed;
- adeilad cyfoes a chartrefol fydd yn greiddiol i Nefyn, ei phobl a'r gymuned;
- gofod sy'n dathlu'r Gymraeg ac yn rhannu hanes a diwylliant lleol.

Y cyfrwng ar gyfer gwireddu'r weledigaeth yw cymdeithas budd cymunedol i berchnogi a rhedeg y busnes. Ers tua chwe mis bu Grŵp Sefydlu yn asesu faint o farchnad sydd ar gyfer gwasanaeth o'r fath a beth yw'r diddordeb yn lleol a thu hwnt i gefnogi menter o'r fath. Bellach mae Tafarn yr Heliwr Cyf. wedi ei gofrestru a'i sefydlu fel cwmni er budd cymunedol ers dechrau Ebrill 2018.

Mae'r cynllun busnes hwn yn egluro sut y bwriedir gwireddu'r fenter i gychwyn. Bydd y fenter yn her go fawr gan fod angen cefnogaeth sylweddol o'r gymuned a thu hwnt i brynu a gwella'r adeilad sydd dan sylw. Y mae'r cwmni eisoes wedi denu £82,000 gan fuddsoddwyr a'r nôd yn ddelfrydol yw codi o leiaf £18,000 drwy gyfranddaliadau ychwanegol maes o law er mwyn rhoi sylfaen gadarn i'r cwmni a datgloi ffynonellau eraill o gefnogaeth ariannol.

Mae'r cynllun busnes yn disgrifio'r lleoliad sydd dan sylw a'r rheswm dros ddewis y lleoliad, y gwaith sydd angen ei wneud i ddarparu'r cyfleusterau priodol, a'r gost a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r datblygiad. Y mae'r cynllun hefyd yn rhoi amlinelliad o sut y gwelwn y busnes yn datblygu a thyfu dros y pum mlynedd cyntaf. Mae'n cyflwyno rhagolygon o'r incwm a chostau ar gyfer rhedeg y fenter. Mae'r model wedi ei seilio ar greu incwm (drwy gwerthiant diodydd, bwyd a gosod ystafelleodd yn bennaf) a throsiant gros o gwmpas £217,000 erbyn 2024/25. Rhagwelir mai'r prif gostau fydd cost pryniannau (46%) a staffio (29%) gyda'r fenter yn rhoi cyflogaeth i ddwy swydd llawn amser a 3 staff rhan amser a thymhorol. Mae hyn yn cyfateb i 2.75 staff cyfwerth llawn lamser. Y mae'r model hefyd yn ddibynnol ar gyfraniad amser gan wirfoddolwyr i helpu gyda rheoli'r fenter. Mae hefyd yn disgrifio'r risgiau sydd ynghlwm wrth y fenter – fel unrhyw fenter.

Ar sail y gwaith ymchwil a'r rhagdybiaethu am y refeniw a ddenir a'r costau a wynebir, mae'r Bwrdd Cysgodol yn credu fod y busnes yn gynaliadwy o 2022/23 ymlaen. Yn y pedair mlynedd cyntaf bydd angen datblygu'r fenter gam wrth gam er mwyn cyrraedd sefyllfa o fod yn gynaliadwy. Ar sail ein rhagdybiaethau a'n rhagolygon, yr ydym yn darogan rhagwelir y bydd y fenter yn dechrau gwneud syrffed gweithredol o 2020/21 ymlaen ac y bydd y cwmni yn gwneud syrffed digonol i ystyried talu llogau i gyfranddalwyr

o 2022//23. Byddai'r cwmni yn medru dal ei ben uwch ben y dŵr hyd at sefyllfa pe bai incwm ar gyfnodau brig y flwyddyn yn 15% yn is na'r hyn a ragwelir.

1. Disgrifiad o'r Busnes

Y Cefndir

Pwy sydd y tu ôl i'r fenter a pham?

1. Mae Tafarn yr Heliwr neu'r "Sportsman" yn dafarn hanesyddol gyda thystiolaeth o'r Goets Fawr yn galw yno cyn belled yn ôl â 1863. Mor ddiweddar â dechrau'r ganrif hon 'roedd yn dafarn fywiog a llewyrchus gyda chwsmeriaid o bell ac agos yn dod yno i chwarae pŵl, dartiau ac i gymdeithasu ar ôl gêm bêl-droed neu gwis. Bu hefyd yn fan cymdeithasol gwych i lawer o fandiau byw. Caeodd y dafarn ei drysau yn 2009.
2. Ym mis Ionawr 2018, yn dilyn trafodaeth gan grŵp o drigolion y dref, cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus i drafod y posibilrwydd o ail agor y dafarn. Daeth dros 80 o bobl i'r cyfarfod a chafwyd trafodaeth frwd. Llwyddwyd i ffurfio pwyllgor ac mae llawer iawn o bobl wedi rhannu eu syniadau a chynnig helpu.
3. Yn sgil y cyfarfod hwnnw penderfynwyd creu endyd cyfreithiol ar ffurf cymdeithas budd cymunedol. Cofrestrwyd cwmni Tafarn yr Heliwr Cyfyngedig ym mis Mawrth 2018 gyda 50 o gyfranddalwyr sylfaenu.
4. Ar Fai 7fed I 2018 lanswyd Cynnig Cyfranddaliadau gyda'r nod o ddenu cefnogaeth ariannol i sicrhau tafarn gyda pherchnogaeth gymunedol eang erbyn y dyddiad cau ar Fehefin 30ain – wyth wythnos yn ddiweddarach. Yn dilyn ymgyrch a wnaeth defnydd helaeth o'r cyfryngau torfol a chymedithasol llwyddwyd i godi £82,000 o fewn wyth wythnos. Mae dros 450 o bobl wedi buddsoddi yn y fenter i gyd, gyda isafswm o 50 cyfranddaliad £1 yr un.
5. Mae pris wedi ei gytuno ar gyfer yradeilad a'r bwriad yw cwblhau pryniant cyn diwedd 2018. Bwriedir ymgymeryd â'r gwaith cychwynnol dros y Gaeaf i addasu rhannau o'r llawr daear er mwyn agor fel tafarn ac yna atgyweirio a gwella'r bedair ystafell wely ar y llawr cyntaf yn ystod Gaeaf 2019/20. Anelir at agor yr elfen llety erbyn Gwanwyn 2020

Y Weledigaeth

6. Erbyn 2025, y nod yw creu hwb neu ganolbwynt cymunedol cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau a fydd yn cynnig:
 - llety rhesymol i ymwelwyr;
 - prydau ysgafn, diodydd a choffi;
 - lle i gynnal digwyddiadau;
 - cynnig nosweithiau cymdeithasol i bobl leol o bob oed;
 - cynnig man cysurus a chroesawgar i grwpiau cymunedol lleol;

- adeilad cyfoes a chartrefol fydd yn greiddiol i Nefyn, ei phobl a'r gymuned;
- gofod sy'n dathlu'r Gymraeg ac yn rhannu hanes a diwylliant lleol.

Crynodeb Busnes

7. Y mae'r achos busnes wedi ei seilio ar ddarparu gwasanaeth tafarn yn cynnig bwyd a diod ynghyd â gosod tair ystafell wely gyda lle i gysgu i hyd at 14 person drwy'r flwyddyn. Ar sail nifer o ragdybiaethau gofalus - a chymhariaeth gyda pherfformiad tafarndai gwledig eraill - byddwn yn anelu at gynyddu gwerthiant (gros) bwyd a diod i tua £183,000 y flwyddyn erbyn diwedd 2024/25. Bydd hyn yn cynrychioli tua 85% o incwm gros y busnes.
8. Byddwn hefyd yn anelu at werthu tua 450 o nosweithiau gosod i tua 1200 person y flwyddyn erbyn 2024/25. Bydd y gwerthiannau hyn wedi eu rhannu rhwng grwpiau, teuluoedd ac unigolion sydd eisiau profi amgylchedd a threftadaeth Nefyn a gweddill y Penrhyn. Rhagwelwn y bydd oddeutu 27% o'r nosweithiau i grwpiau a'r gweddill deuluoedd, cyplau ac unigolion. Erbyn diwedd 2024/25 rhagwelir y bydd incwm gros ychydig o dan £32,000 neu 14% o'r incwm gros o'r ffynhonnell hon. Rhyngddynt anelir at werthiant gros o tua £170,000 erbyn diwedd 2021/22 a thua £217,600 erbyn diwedd 2024/25.
9. Cyflogir Rheolydd i oruchwylio'r gwaith o redeg y fenter o ddydd i ddydd. Bydd y dyletswyddau yn cynnwys cyfrifoldeb am bob agwedd o redeg y dafarn gan gynnwys cynnal a chadw'r adeilad yn briodol, marchnata'r dafarn i ddarparu gynulleidfaoedd, goruchwylio'r gwaith o dderbyn a phrosesu archebion a chroesawu a gwasanaethu cwsmeriaid a gwesteion. Gan y bydd y llety yn cynnig steil ddeniadol ond weddod syml o ystafelloedd cysgu, ac yn rhoi anogaeth i'r gwesteion fwyta allan, ni ragwelir y bydd angen goruchwyliaeth noswyl a chynnar yn y bore.
10. Yn ogystal â'r Rheolydd bydd hyd at 1.35 swydd cyfwerth llawn amser(s.c.II) yn cael eu cyflogi i weini diod a bwyd.
11. Bydd y Rheolwr hefyd yn derbyn cymorth oddi wrth tîm o wirfoddolwyr o'r cwmni ar adegau prysur. Y bwriad ydi cyflogi cwmni allanol i lanhau'r adeilad, gan gynnwys yr ystafelloedd aros. Bydd y prosiect felly yn rhoi gwaith i eraill yn yr economi leol drwy eu pwrcasau gan gynnwys glanhau a golchi, bwyd a diod. Amcangyfrifir y bydd hyn yn yn creu o leiaf 0.5 s.c.II yn yr economi leol.
12. Rhagwelir y bydd y costau gweithredol o redeg y busnes ar y lefel a ragwelir o 2023/24 ymlaen yn caniatáu syrffed gweithredol gyda chyfradd y syrffed hwnnw yn amrywio ar gyfartaledd rhwng 13% a 15%.
13. Yn ogystal ag ad-dalu cyfalaf a llogau ar fenthyciadau eraill yn flynyddol, bydd hyn yn galluogi'r busnes i ystyried dechrau talu llog i fuddsoddwyr preifat o 2023/24 ymlaen.

Strwythur Gyfreithiol

14. Cymdeithas Budd Cymunedol a gofrestrwyd dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 fydd yn rheoli'r busnes (gweler y cyfansoddiad yn Atodiad 1). Dewiswyd y strwythur hwn gan ei fod yn adlewyrchu dyheadau a gweledigaeth y grŵp - sef gwerthoedd o berchnogaeth gymunedol a rheolaeth leol wrth sefydlu a datblygu busnes cynaliadwy.

Crynodeb Ariannol

15. Mae **Tabl 1** isod yn crynhoi'r rhychwant o bosibiliadau o sut i symud ymlaen gyda'r prosiect, yn ddibynol ar gost y pryniant a gwelliannau.

TABL1 CRYNHOAD O'R PROSIECT
COSTAU SEFYLDU

Gofynion	Cost (£)	Cost (£)
Pryniant a Gwelliannau Rhan 1	170,000	200,000
Gwelliannau Rhan 2	50,000	60,000
Offer a Dodrefn	22,500	27,500
Ffioedd Proffesiynol	20,000	22,500
Cyfalaf Gweithredu	30,000	50,000
CYFANSWM	292,500	360,000

I'W GYLLIDO DRWY

Ffynhonnell	Isafswm	Uchafswm
Cyfranddaliadau	82,000	100,000
Cronfeydd y Gymdeithas	0	15,000
Grantiau Bychain	15,000	15,000
Grantiau Mawr	195,500	230,000
CYFANSWM	292,500	360,000

16. Mae'r Tabl cyntaf yn dangos yr amcangyfrifon a ddarparwyd gan ein cynghorwyr proffesiynol o'r gost debygol ar gyfer y Prosiect (yn cynnwys TAW).

17. Mae'r ail Dabl yn rhoi ein barn ar y paramedrau ariannol sy'n berthnasol ar gyfer gwireddu y Prosiect. Mae'n dangos y senarios sy'n bosibl yn ddibynnol ar faint a gesglir gan y cynnig cyfranddaliadau yn derfynol a'r isafswm sydd ei angen i'r prosiect fod yn hyfyw.
18. Mae'r Cynllun Busnes wedi ei seilio ar yr isafswm buddsoddiad cyfrannau o £82,000 a gasglwyd erbyn Mehefin 30 2018. Fodd bynnag, po fwyaf y bydd modd i'r cwmni ddenu cyfalaf drwy cyfrannau, yna po leiaf y bydd angen i'r cwmni sicrhau cyfalaf drwy benthyciadau mwy costus.
- 19.1. Yr uchafswm a roddir ar y faint sydd i'w gasglu mewn siârs yw £200K, ond dydi hwn ddim yn ddisgwyliad realistig o faint a ellir ei godi.

1. Y Farchnad a'r Strategaeth i Sicrhau Llwyddiant

20. Nod cwmni Tafarn yr Heliwr Cyf. yw creu cyrchfan i'r bobl hynny sydd eisiau croeso a llety cyfleus, cyfforddus, Cymrieg a rhesymol i flasau iaith, diwylliant a threftadaeth ac atyniadau eraill Nefyn a'r cylch. Yr ydym wedi adnabod fod marchnad sy'n datblygu ond sydd heb ei diwallu ar hyn o bryd ar gyfer cerddedwyr, beicwyr a gweithgareddau awyr agored eraill sydd eisiau llety rhesymol ar eu taith o gwmpas Penrhyn Llŷn. Mae nifer sylweddol o bobl leol hefyd yn credu nad oes man cyfarfod priodol o'r fath ar hyn o bryd yn y dref.

21. Y prif farchnadoedd yr anelir atynt yw:

- Pobl a grwpiau lleol sydd eisiau nawys tafarn Gymreig leol i gymdeithasu a chyfarfod;
- Cerddedwyr sydd angen llety cyffryddus ond rhesymol ar eu taith ar hyd rhan Llŷn o Lwybr Cymru;
- Ymwelwyr eraill sydd eisiau lloches, bwyd a diod ar eu hymweliad â Nefyn;

Nodweddion Nefyn

22. Tref fechan a chymuned ar arfordir gogleddol Penrhyn Llŷn yng Ngwynedd yw **Nefyn**, gyda phoblogaeth o tua 1,370. Filltir i lawr y ffordd i'r gorllewin mae Morfa Nefyn a Phorthdin-Ilaen, ar lan Bae Caernarfon. I'r dwyrain o Nefyn, ar y ffordd i gyfeiriad Gaernarfon, mae pentrefi Pistyll a Llithfaen, bryniau Yr Eifl a Chanolfan iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn.

23. Heblaw Nefyn ei hun, mae cymuned Nefyn yn cynnwys pentrefi Morfa Nefyn ac Ederm ac yn gyfangwbl mae poblogaeth breswyl arferol y gymuned tua 2,500. Mae'n un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg gyda 76% o'r trigolion yn medru siarad yr iaith.

24. Cyfanswm nifer yr aelwydydd yw 618 gyda maint cyfartalog yr aelwyd yn 2.2 – rhywbeth yn debyg i gyfartaledd y Sir a Chymru gyfan. Mae ychydig dros draean (36%) yn aelwydydd un person gyda hanner rhain yn aelwydd un pensynwr. Mae tua 20% o aelwydydd yn rhentu eu tai oddi wrth landlord cymdeithasol sydd yn uchel o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Gwynedd a Chymru. Mae 17% yn aelwydydd heb breswylwr arferol (y rhan fwyaf felly yn dai haf) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 6.0%.

25. Y pedwar sector mwyaf o ran cyflogaeth yw adeiladu (17.1%), manwerthu a chyfanwerthu (16.1%), iechyd a gwaith cymdeithasol (13.5%) a llety a gwasanaethau bwyd (10.6%).

26. Mae 81% o'r boblogaeth mewn iechyd da neu dda iawn. Er bod cyfartaledd incwm aelwydydd yn gymharol isel yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog mae Nefyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r rhan fwyaf o wardiau eraill Cymru.

27. Mae Nefyn yn gyrchfan boblogaidd gydag ymwelwyr oherwydd bod yma draeth tywodlyd a chyfleusterau da ar gyfer gweithgareddau dŵr, Mae'r ffordd A497 yn gorffen yng nghanol y dref.

Sectorau Marchnadoedd Penodol


Pobl a Grwpiau Lleol

28. Mae canfyddiad cyffredinol fod y sector tafarndai yn dirywio gyda chymaint ag un tafarn yn cau bob wythnos yng Nghymru. Y prif reswm a roddir am hyn yw cyfuniad o leihad mewn yfed alcohol, cystadleuaeth oddi wrth adwerthwyr wrth i bobl ddewis aros gartref i yfed, a chostau cynyddol (e.e. trethi a chyflogau). Er hynny, mae rhai o fewn y diwydiant yn optimistaidd ac yn dweud mai'r allwedd i lwyddiant o fewn y sector yw newid gyda'r amseroedd.

29. Mae dadansoddiad diweddar gan un o brif gyhoeddiadau'r diwydiant, MCA¹, yn awgrymu hefyd mai cau tafarndai cadwyn (gyda rheolwr neu denant) sydd yn gyfrifol am leihâd yn y nifer o dafarndai – mae'r ffigyrau yn awgrymu fod y nifer o dafarndai annibynnol a rhydd yn cynyddu ac yn debygol o gynyddu hyd 2020. Mae Ffigur 1 isod yn dadansoddi'r farchnad fesul math o dafarn:

FFIGUR 1 NEWIDIADAU YN Y FARCHNAD TAFARNDAU

Analysis of growth across the total pubs market, 2013-2019F (forecast)



Ffynonell: *The Morning Advertiser* Mehefin 23 2016 (edrychwyd ar y wefan www.morning-advertiser.co.uk 14/06/18)


30. Rhan o'r ddadl yw deall pa swyddogaeth y gall y dafarn ei chwarae i gyfarch y galw o fewn y gymuned a'r angen i fod yn llawer mwy agored i'r hyn y gall y swyddogaeth honno fod.

¹ MCA (2016) *The Annual UK Pub Market Report*, (crynodeb wedi ei gynnwys mewn erthyfl yn y Morning Advertiser

31. Er mwyn cael barn y gymuned trefnwyd i gynnal Arolwg Ar Lein. Fe wnaed hyn mewn dwy wedd gyda 100 yn ymateb i'r Wedd Gyntaf a 90 wedi ymateb i'r Ail Wedd. Mae'r canrannau a ymateb yn weddol gyson ar draws y ddwy wedd. Mae'r adborth yn dangos fod cefnogaeth i'r syniad o "hwb cymunedol" ('roedd dros 95% o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi neu'n cefnogi'n gryf iawn y syniad hwn).

32. O ran swyddogaeth a gwasanaethau mae Ffigur 2 yn dangos y math o gyfleusterau neu ddarpariaeth yr hoffai'r ymatebwyr ei weld.

FFIGUR 2 PA FATH O GYFLEUSTERAU YR HOFFAI TRIGOLION NEFYN EI WELD




33. Roedd ymateb yr Ail Wedd rhywbeth yn debyg gyda Cherddoriaeth Fyw yn ddewis cyntaf, lle croesawgar i deuluoedd yn ail a chwaraeon yn drydydd.

34. Ymysg y syniadau eraill a grybwyllwyd oedd byncws, bwyty, pwyslais ar gynnyrch lleol a bod y staff yn medru siarad Cymraeg.

35. Mae canlyniadau cwestiwn dilynol yn awgrymu y byddai pardorwydd i gefnogi'r fenter yn ymarferol. Mae Ffigur 3 yn rhoi atebion i'r cwestiwn pa mor aml yn wythnosol y byddai'r atebdydd yn fodlon defnyddio'r Hwb Gymunedol.

FFIGUR 3 AMLEDD YR YMWELIADAU I'R DAFARN



Llety

36. Y bwriad o ran llety Tafarn yr Heliwr yw darparu llety sy'n groesiad rhwng tŷ gwestai neu wely a brecwast (ystafelloedd dwbl/efail) ond fod ganddo hefyd ystafelloedd bync debyg i hostel.

37. Mae ystadegau diweddaraf yn awgrymu fod llety o'r fath yn tyfu. Mae Arolwg Deiliadaeth Llety Ymwelwyr Cymru (Ebrill 2016 – Mawrth 2017)² yn crynhoi darpar berfformiad y sectorau perthnasol fel a ganlyn.

- “Mae'r deiladaeth tai gwestai/gwely a brecwast dros y 12 mis yn diweddu Mawrth 2017 ar 40%, cynnydd o 2% dros yr un cyfnod yn 2016;
- Mae deiladaeth gwelyau hostelau am y 12 mis yn diweddu Mawrth 2017 wedi codi 2% i 51%, o'i gymharu â'r cyfraddau deiliadaeth ar gyfer yr un cyfnod yn 2016.”


38. Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu fod perfformiad y sector hostelau yng Ngogledd Cymru hyd yn oed yn well ar 52%.

39. Mae **Ffigur 4** isod yn atgynhyrchu ffigur o ystadegau Twristiaeth Prydain Fawr sy'n dangos gwariant llety ar gyfartaledd a hyd yr arhosiad ar gyfer twristiaeth cartref.

² Llywodraeth Cymru (Mai, 2017) *Arolwg Deiliadaeth Llety Ymwelwyr (Ebrill 2016 – Mawrth 2017)*

FFIGUR 4 GWARIANT CYFARTALOG AR LETY YN ÔL HYD YR ARHOSIAD (PRYDAIN FAWR)

Figure 1: Average accommodation expenditure and length of stay (domestic tourists)



Source: The GB Tourist Statistics (2015)

Ffynhonnell: wedi ei atgynhyrchu o Lichfields (2017) *Rural Estates: Economic Benefits of Rural Tourism*

40. Mae'r ffigyrau yn awgrymu mai cyfartaledd hyd yr arhosiad mewn hostel yw pum diwrnod ond fod gwariant y noson ar gyfartaledd yn gymharol isel. Fodd bynnag, mae hyd cyfartalog yr arhosiad mewn Tai Gwestai/ Gwely a Brecwast yn is ar dri diwrnod ond fod gwariant cyfartalog yn gymharol uwch ar tua £34 y noson.
41. Mae Nefyn yn gorwedd ar Lwybr Arfordir Cymru. Er nad oes ystadegau penodol ar gyfer y defnydd o'r llwybr yn Nefyn mae ystadegau Adroddiad Effaith Economaidd Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu fod 40 miliwn ymwelydd wedi defnyddio'r llwybr ar draws Cymru.
42. Dengys ystadegau niferoedd ymwelwyr i Wynedd (STEAM 2015) fod 17.3 miliwn o nosweithiau aros (ymwelydd x nosweithiau) wedi eu cofnodi gydag ymwelydd yn aros am 5 noson ar gyfartaledd.
43. Yn ogystal, yn ôl yr un ddogfen, y mae mwy o nosweithiau aros yng Ngwynedd nac un o awdurdodau lleol eraill Cymru, ac yn ogystal mwy o wariant y pen gan ymwelwyr sydd yn aros hefyd.

2. Y Gystadleuaeth

Tafarndai

44. Mae'r lleoedd canlynol yn cystadlu gyda Thafarn yr Heliwr am fusnes "tafarn"

O fewn y Dref

- Nanhoron Arms (Bar Cefn)
- Bar Cwrw Llŷn
- Y Clwb Cyfansoddiadol

45. Tu allan i'r Dref a'r cyffiniau

- Y Bryncynan (Groeslon Bryncynan)
- Y Tŷ Coch (Porthdinllaen);
- Tafarn y Ship (Edern)

Llety

46. Fel cyrchfan ymwelwyr amlwg, y mae nifer fawr o fannau aros yn Nefyn a hynny ar draws yr holl ystod o ddarparwyr. Un pegwn yw gwestyau safonol megis Woodlands, Edern a'r Nanhoron Arms, Nefyn. Ar y llall mae nifer o dai gwely a brecwast a safleoedd carafannau. Rhwng y ddau begwn hyn ceir nifer o westai bach a nifer fawr o sefydliadau hunan arlwygo ac wrth gwrs meysydd carafannau teithiol a phebyll.

47. Mae Nefyn rhyw 20 milltir o Gaernarfon a 15 milltir o Aberdaron ac felly'n leoliad cyfleus i gynnig lle i orffwys ar hyd Llwybr Arfordir Cymru rhwng Caernarfon ac Uwchmynydd.

3. Cynllun Marchnata

48. Prif amcanion y Cynllun Marchnata yw:

- Sicrhau, neu wella trosiant o £200,000 erbyn diwedd 2022/23
- Sicrhau, neu wella, targed deiladaeth cyfartalog y personau sy'n aros o 1,198, a'r nifer o noswethiau gosod o 450 erbyn 2022/23.

49. Sefydli'r pob cynllun marchnata ar egwyddor y "5 P" sef yn Saesneg *Product/Place/Promotion/Price/People* a gweler isod sut y mae defnyddio'r egwyddor hon i farchnata cynnyrch neu wasanaeth. Yn y cyd-destun hwn, ychwanegwyd un "P" arall yn y Gymraeg sef Profiad.

50. **Y pum "P"** - Nid yw pob un o'r elfennau "P" yn gyfartal o ran pwysigrwydd ac felly y mae yn bwysig iawn rhoi'r pwyslais marchnata trwy'r "P" sydd yn fwyaf effeithiol i gyrraedd y farchnad. Er enghraifft, os mai eich garej chi yw'r unig un o fewn 20 milltir sy'n gwerthu tanwydd yr hyn sy'n dod â phobl yno yw'r lleoliad (Place). Nid yw'r cynnyrch (Product), sef brand y tanwydd, y pris na'r ansawdd gwasanaeth yn gwneud llawer o wahaniaeth, felly i farchnata'r garej rhaid pwysleisio'r lleoliad – "dyma eich garej lleol, yr agosaf atoch chi mewn argyfwng tanwydd".

51. Yn ogystal, y mae'n rhaid deall a dadansoddi y sectorau neu'r rhannau penodol o'r farchnad sydd angen eu targedu gyda dulliau gwahanol er mwyn effeithiolrwydd trosglwyddo'r neges .

Cynnyrch (Product)

52. Rhaid diffinio'r "cynnyrch" i gychwyn, ac yma y mae dau gynnyrch yn bôn:

- Y dafarn (lluniaeth a bwyd);
- Yr ystafelloedd aros;

53. Gellir ystyried fod trydydd cynnyrch, sef yr ystafell aml bwrpas ond bwriad y cwmni ar hyn o bryd yw gosod yr ystafell honno am ddim gyda'r gobai y bydd hynny'n denu trosiant ychwanegol i'r dafarn.

54. **Lleoliad (Place)**– Prif fantais y dafarn yw'r lleoliad canolog yn Nefyn a'r mynediad cyfleus i bobl leol ymwelwyr.

55. **Hyrwyddo (Promotion)** – Y mae'r ffaith syml bod busnes newydd yn cael ei greu gyda gwasanaethau newydd yn gyfle gwych i ddenu sylw a diddordeb ac fe ddylid defnyddio hyn i greu straeon ar y cyfryngau lleol a chenedlaethol ar gychwyn y prosiect.

56. Yn ogystal, y mae strwythur cymunedol a chydweithredol y fenter yn ychwanegu gwerth at y busnes ac yn gyfle ychwanegol i'w hyrwyddo.
57. **Pris (Price)** – Seiliwyd y prisiau a ragdybir yn y cynllun busnes ar y gost o ddiod, bwyd a llety mewn sefydliadau tebyg
58. **Pobl (People)** – Busnes Cymunedol yw Tafarn yr Heliwr wedi ei pherchnogi a'i rheoli'n bennaf gan bobl leol felly y mae elfen o berchnogaeth y gymuned yn bwysig i'w thanlinellu. Hefyd bydd ansawdd ac agweddau'r staff cyflogedig a'r Cyfarwyddwyr a'r aelodau yn allweddol i greu'r ddelwedd gywir o'r adnodd, gyda'r Gymraeg yn cael lle blaenllaw.
59. **Profiad** – Y mae'r weledigaeth ar gyfer y busnes yn gogwyddo'n drwm ar gyflwyno profiad Cymraeg i'r gwesteion ac o'r herwydd fe fydd hyn elfen bwysig iawn o'r cynllun marchnata.

Strategaeth Farchnata a'r Sectorau

60. Yn gyffredinol fe fydd y strategaeth farchnata yn cynnwys y canlynol:

- PR am ddim yn y wasg leol trwy wahodd gohebwyr i ymweld â'r adnodd newydd . Un agwedd ddiddorol o'r cynllun yw'r ffaith fod y gymuned leol wedi bod yn rhan o gynllunio'r busnes a gellir defnyddio'r nodwedd hwn mewn datganiadau i'r wasg i danlinellu perchnogaeth gymunedol yr adnoddau. Y mae Radio Cymru a'r gorsafoedd masnachol yn chwilio am straeon lleol yn gyson ar gyfer eu rhaglenni cylchgrawn, a gwelsom eisoes fod gwasanaeth teledu BBC Cymru, BBC Wales ac ITV Cymru yn barod iawn i drafod datblygiadau cymunedol yn eu rhaglenni newyddion.
- Canolbwyntir yn bennaf ar fwydo straeon i'r cyfryngau cymdeithasol, papurau wythnosol a dyddiol Cymru er mwyn creu ymwybyddiaeth o'r Fenter a'i hadnoddau. Fe fydd y rhain hefyd yn dargedau ar gyfer hysbysebu'r busnes.
- Bydd agoriad swyddogol yn gyfle i ddenu sylw, ac fe fydd enwogion lleol a ffigyrau cenedlaethol yn cael eu gwahodd i'r agoriad.
- Fe fydd y rhan fwyaf o'r gwaith marchnata yn digwydd yn ystod y cyfnod datblygu er mwyn sicrhau y defnydd gorau posibl o'r adnoddau pan fyddant yn barod.
- Bydd TyH yn gwneud defnydd helaeth o'r we gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol Twitter, Facebook ac Instagram.

61. Y mae sectorau penodol o'r farchnad i'w targedu gan ddefnyddio'r dulliau uchod; gellir disgrifio'r sectorau a'r dulliau o'u cyrraedd fel a ganlyn yn **Nhabl 1**:

TABL 1 DULLIAU MARCHNATA

Y Sector	Dulliau Marchnata
Y boblogaeth yn gyffredinol ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus a chodi a chynnal diddordeb	Adroddiadau a straeon yn y wasg yn rheolaidd- targedu mudiadau a sefydliadau Cymreig a Chymraeg.
Darpar westeion	Hysbysebion cyffredinol yn y wasg Gymraeg a'r cyfryngau a chydweithio a sefydliadau Cymraeg a Chymreig yng Nghymru a thu hwnt.

Brandio

62. Er mwyn i'r brand lwyddo y mae'n angenrheidiol i'r ddelwedd a gyfleuir gan y brand gyffwrdd yr unigolyn yr anelir atynt, a chreu rhyw fath o gyswllt emosiynol. Mae'n haws gwneud hyn hefo cynnyrch (e.e. car) na chysyniad neu brofiad (ymlacio neu fywyd iach). Mae'n anoddach fyth i greu brand llwyddiannus wrth sôn am brofiad sydd yn ddieithr i'r farchnad gyffredinol megis diwylliant ac iaith.

63. Yng nghyd-destun Tafarn yr Heliwr, mae'r her o greu'r cyswllt emosiynol yn haws i raddau gan fod y farchnad yr anelir amdani eisoes wedi 'prynu i mewn' yn emosiynol i gefnogi busnes Cymreig.

64. Y mae "USP"(Unique Selling Proposition) arbennig gan Tafarn yr Heliwr sef:

- Awyrgylch a marchnad Gymraeg
- Lleoliad yng nghanol Nefyn

5 Datblygu'r Adeilad a'r Busnes

65. Mae'r adeilad ar dri llawr gyda chyfanswm yr arwynebedd tua 215 metr sgwâr. Defnyddir y gofod fel a ganlyn:

Is- Lawr

- Selar

Llawr Daeear

- Bar siap L – 3.9m * 5.1m (19 m. sg);
- Lolfa – 3.8m *5m (18 m. Sg.);
- Bar Gefn – 6.3m * 3.0m (18m. Sg.)
- Ystafell chwaraeon - 4.1m * 4.95m (20m sg.)
- Cegin – 4m * 3m (12 msg.)
- Toiledau merched
- Toiledau dynion

Llawr Cyntaf

- Ystafell Molchi
- Toiled
- Cegin
- Lolfa
- Ystafell wely


Ail Lawr

- Cegin
- Ystafell Gawod
- Ystafell Wely
- Ystafell wely
- Lolfa

66. Mae **Ffigurau 6 A 7** drosodd yn dangos y bras gynlluniau drafft sy'n sail i'r cynllun busnes.

FFIGUR 6 –LLAWR GWAELOD

TAFARN YR HELIWR - THE SPORTSMAN
GOSODIAD NEWYDD Y DAFARN / NEW PUB LAYOUT - OPSIWN 1




FFIGUR 7 Y LLORIAU UWCH BEN

TAFARN YR HELIWR - THE SPORTSMAN
LLORIAU UWCH / UPPER FLOORS - OPSIWN 1



LEFEL +2



LEFEL +1



Datblygu'r Busnes

67. Ar sail amcangyfrifon gan Faintmesurydd³ amcangyfrifir y bydd y gost o brynu ac addasu a dodrefnu'r rhan gyntaf yr adeilad, ynhyd â chostau proffesiynol (heb TAW), yn **£335,000**.

68. Mae cyfanswm y buddsoddiad cyfalaf i wireddu'r fenter yn ei gyfanrwydd yn **£385,000** (heb TAW).

69. Y mae angen cyfalaf sylweddol i wireddu Cymal Cyntaf y cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae ail ran **Tabl 2** isod yn dangos y ffynnonellau cyllid y cafwyd cefnogaeth mewn egwyddor iddynt a hynny trwy gyfuniad o gyfrannau a cymorthdaliadau:

TABL 2 FFYNONELLAU BUDDSODDI

COSTAU SEFYLDU

Gofynion	Cost(£) Uchafswm	2018/19(£)	2019/20(£)
Prynant a Gwelliannau Rhan 1	200,000	200,000	0
Gwelliannau Rhan 2	60,000	0	60,000
Offer a Dodrefn	27,500	15,000	12,500
Ffioedd Proffesiynol	22,500	12,500	10,000
Cyfalaf Gweithredu	50,000	40,000	10,000
CYFANSWM	360,000	267,500	92,500

I'W GYLLIDO DRWY

Ffynhonnell	Incwm Uchafswm	2018/19(£)	2019/20(£)
Cyfranddaliadau	100,000	100,000	0
Cronfeydd y Gymdeithas	15,000	15,000	0
Grantiau Bychain	15,000	15,000	0
Grantiau Mawr	230,000	167,500	62,500
			0
CYFANSWM	360,000	297,500	62,500

6. Rheolaeth a Rhedeg y Busnes

Cyflwyniad

70. Mae'r adran hon yn disgrifio'r trefniadau presennol a'r cynlluniau a gynigir ar gyfer rheoli a gweithredu Tafarn yr Heliwr Cyf.

Rheolaeth a Chyfeiriad Strategol

71. Bwrdd y cwmni fydd yn gyfrifol am reolaeth a chyfeiriad strategol a fydd yn tynnu ei aelodau ar draws yr aelodaeth gyffredin. Bydd yn cael ei ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Fe fydd y Bwrdd Rheoli yn cyfarfod yn fisol i ddechrau ac yna wedi i'r busnes sefydlu ei hun o leiaf unwaith bob chwarter.

72. Bydd y Bwrdd Cysgodol presennol yn rhedeg y Gymdeithas tan y cynhelir Cyfarfod Cyffredinol cyntaf y Gymdeithas. Unwaith y bydd y cyfranddaliadau wedi eu cymeradwyo a'u dosbarthu, ac aelodaeth lawn y Gymdeithas yn hysbys, fe all aelodau wedyn gynnig eu henwau ymlaen i gael ei (h)ethol i fod yn Gyfarwyddwr yn y Cyfarfod Cyffredinol cyntaf. Bydd cyfanswm o hyd at naw Gyfarwyddwr.

73. Er mwyn sicrhau ymgysylltiad aelodau a phobl leol â'r Gymdeithas a sicrhau y bydd pwll o bobl i greu Byrddau'r dyfodol, bydd y Bwrdd yn gwneud y canlynol:

- Cynhyrchu newyddlenni rheolaidd;
- Cynnal presenoldeb we a chyfryngau cymdeithasol

Y Bwrdd Cysgodol Presennol

74. Mae aelodau'r Bwrdd presennol yn cynnwys y pedwar cyfarwyddwr ac 14 o unigolion eraill sy'n cynnig amrediad eang o sgiliau a phrofiadau sy'n berthnasol i'r tasgau o sefydlu menter newydd, codi arian, marchnata a rheoli'r gwaith gwelliannau. Cyfarwyddwyr y Bwrdd Cysgodol yw:

Bleddyn Evans Cadeirydd

75. Cafodd Bleddyn ei eni a'i fagu ym Morfa Nefyn. Mae'n briod â Bethan a chanddynt dri o blant. Maent yn byw yn Nefyn ers 18 mlynedd. Mae Bleddyn yn drydanwr hunan-gyflogedig ac yn gweithio yn ddyddiol yn ei filltir sgwar.

76. Mae'n gynghorydd tref ac wedi chwarae pêl-droed i Nefyn ac ymwneud â'r clwb ers blyneddoddedd. Mae Bleddyn wedi casglu arian i elusennau er cof am ei fab bach ers 2011. Mae cyfanswm yr ymgyrch codi arian bellach oddeutu £40,000.

Elin Angharad Davies – Ysgrifennydd y Cwmni

77. Hogan Nefyn ydy Elin ac mae hi'n dal yma. Aeth hi i Brifysgol Aberystwyth i astudio'r Gymraeg a chwblhau gradd Meistr a Doethuriaeth yno. Bu'n gweithio fel golygydd efo gwasg y Lolfa, yn dysgu Cymraeg i oedolion yn Nant Gwrtheyrn ac mae hi bellach yn Diwtor Gweithle efo Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin ym Mangor. Mae hi'n briod ag Eifion, sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor. Gyda nifer o bobl ifanc yn symud o'r ardal, mae Elin yn falch ei bod wedi gallu aros 'adra' yn Nefyn ac yn gweld y fenter fel cam ymlaen i sicrhau y bydd mwy o gyfle i bobl ifanc lleol wneud yr un fath.

Llyr Hughes Cyfarwyddwr

78. Mae Llyr wedi'i fagu ym Mhen Llŷn, yn briod ac mae ganddo dri o blant. Ar ôl cyfnod o astudio a byw yng Nghaerdydd mae o wedi dychwelyd yn ôl i Ben Llŷn i weithio fel fferylllydd cymunedol. Yn 2003 fe brynodd fferyllfa R J Jones ar Stryd Fawr yn Nefyn. Mae bellach yn rhan o gwmni fferyllwyr lleol sydd yn berchen ar dair fferyllfa a siop fwyd iach yng Ngwynedd.

Emyr Thomas Cyfarwyddwr

79. Ganwyd Emyr yn Morfa Nefyn ond bellach wedi ymgartrefu'n Edern. Ar ôl gadael Ysgol Botwnnog ymunodd â'r Awyrlu Brenhinol fel heddwes am 23 o flynyddoedd. Yn 1995 bu iddo ddechrau gweithio i Wasanaeth Cwrt a Thribiwnlys Ein Mawrhydi yng ngogledd Cymru. Mae bellach wedi ymddeol ond yn gwirfoddoli fel gyrrwr i wasanaeth bus cymunedol O Ddrws i Ddrws. Mae Emyr yn teimlo fod ymdeimlad cymunedol yn bwysig a byddai ail-agor y Sportsman yn gaffaeliad i Nefyn.

80. Mae'r canlynol hefyd yn gwasanaethu fel un o swyddogion y Bwrdd Cysgodol:

Llinos Jones Trysorydd

81. Mae'n ferch i weldar hunan gyflogedig, bu i Llinos ddechrau cadw cyfrifon yn ddeuddeg oed. Cwblhaodd brentisiaeth a derbyn hyfforddiant cyfrifyddiaeth pellach wrth ei gwaith efo griffith, Williams & co ym Mhwlheli. Dechreuodd weithio yn Afonwen Laundry bum mlynedd yn ôl ac yno mae hi'n rheoli'r Adran Gyflogau a Phensiynau ac yn gyfrifol am gyflogau 975 o staff ar draws 5 safle yn y DU. Mae hi'n byw yn Nefyn efo'i partner a'r plant.

82. Unwaith y sefydlir y prosiect bydd aelodau'r Bwrdd Cysgodol yn cynnig eu hunain i gael eu hethol fel Cyfarwyddwyr ac yn annog a gwahodd cyfranddalwyr eraill i enwebu cyfarwyddwyr ychwanegol.

Rheolaeth Dydd i Ddydd

Y Dafarn

83. Crëir swydd lawn amser i gychwyn i reolwr fod yn gyfrifol am holl weithgareddau'r busnes o ddydd i ddydd. Fel y bydd y busnes yn tyfu bydd y swydd hon yn cael ei chefnogi gan berson gweini am y rhan fwyaf o'r flwyddyn a gan berson gweini arall yn ystod misoedd yr Haf a chyfnod y Nadolig.

Y Llety

84. Mae **Tabl 3** yn atgynhychu'r rhagdybiaethau a wnaed am y nifer o nosweithiau ystafell a fydd yn cael eu prynu erbyn 2022/2023.

TABL 3 GOSODIADAU YSTAFELLOEDD

Mis	I	Ch	M	E	Ma	Me	G	A	Med	H	T	Rh	Cyf.
Cyfanswm Gosodiadau	18	24	33	39	46	47	58	64	45	40	26	11	452
Canran Deiliadaeth	20%	25%	33%	40%	48%	50%	60%	65%	50%	40%	30%	25%	

85. Fel y mae'r Tabl yn dangos mae'r ffigyrau misol yn amrywio'n sylweddol rhwng y cyfnod brig ym mis Gorffennaf ac Awst a misoedd y gaeaf (Tachwedd, Rhagfyr a Ionawr). Gyda bodolaeth yr amrywiad hwn mae'r Bwrdd Cysgodol yn cynnig y dylid mabwysiadu trefn o Gytundeb Oriau Blwyddyn gyda'r staff rheoli allweddol. Mae'r model wedi ei seilio ar 1520 awr y flwyddyn a disgwylir y bydd rhaid iddo amrywio rhwng 24 awr dros 4 diwrnod gwaith yn y cyfnod gaeaf distaw i hyd at 54 awr dros saith diwrnod gwaith yng nghyfnod brig yr Haf.

86. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr archebu o flaen llaw a gwneud drwy archebu ar-lein drwy wefan asiant fel Booking.com neu wefan y busnes neu drwy ffonio ffôn symudol y Rheolwr. Bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn gyplau, teuluoedd neu grwpiau bach a byddant yn aros am isafswm o ddwy noson.

87. Bydd gofyn i geisiadau gan arhoswyr am archebion munud olaf a chyrhaeddiadau ar ôl 6 yr hwyr (a dim hwyrach na 9 yr hwyr) wneud trefniadau o flaen llaw a byddant yn cael eu croesawu a'u cofrestru gan un o'r Rheolwyr. Yn ystod cyfnod brig yr Haf, gwyliau'r Rheolwr ac ar y Suliau bydd y gwasanaeth hon yn cael ei gefnogi gan wirfoddolwyr.

88. Bydd y Rheolwr yn gyfrifol am oruchwylio'r modd y bydd yr adeilad yn cael ei lanhau a'i gynnal. Mae'r model yn rhagdybio y bydd angen comisiynu tua 568 o oriau glanhau y flwyddyn a fydd yn amrywio rhwng 36 awr ym mis Chwefror i tua 62 awr ym mis Awst.

Ystafell Gyfarfod/Gweithgaredd

89. Bydd y gofod hwn ar gael yn ystod oriau'r wythnos waith arferol (o 0900 – 1800). Bydd darpar ddefnyddwyr y gofod hwn yn medru archebu lle ar – lein. Bydd y Cydreolwr yn goruchwyllo l sicrhau fod yr archeb yn cael ei gyflawni er mwyn sicrhau fod y gofod wedi ei ddarparu o flaen llaw, i sicrhau fod y drws wedi ei ddad-gloi, a bod y gofod wedi ei glirio a'i gloi ar ôl yr archeb.
90. Bydd y gofod ar gael ar adegau eraill (min nos a phenwythnosau) drwy archebu o flaen llaw ac argaeledd gwirfoddwyr i gynorthwyo.

7. Cynaliadwyedd Ariannol a'r Rhagolygon Ariannol

91. Pwrpas yr adran hon yw cyflwyno crynodeb o'r rhagolygon ariannol ar gyfer pum mlynedd gweithredol cyntaf y busnes. I bwrpas yr ymarferiad rhagdybir y bydd cyfnod gweithredol y busnes yn cychwyn Ebrill 2020 er nad oes dyddiad wedi ei osod hyd yn hyn. Nid yw 'r rhagolygon ar hyn o bryd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw fuddsoddiadau, rhwymedigaethau ac asedion a fydd yn codi o'r cyfnod datblygu nag unrhyw weithgareddau masnachu a allai ddigwydd yn ystod y cyfnod hwn.

92. Adnabuwyd tair prif ffynhonellau incwm i'r busnes:

- Diodydd(y Bar);
- Bwyd
- Gosod ystafelloedd gwely;

Y Bar

93. Bu'r Heliwr yn wag ers wyth mlynedd ac felly nid oes ffigyrau masnachu diweddar a allai gynnig arweiniad ar lefel tebygol y trosiant. Fe grybwyllwyd y gallai'r Heliwr fod wedi bod yn trosi o gwmpas £300,000 y flwyddyn cyn ei gau ond diystyriwyd y lefel hon fel un gwbl afrealistig i'w gyflawni yn ystod cyfnod gweithredol dan sylw i bwrpas y dadansoddiad hwn.

94. Mae gwefan *How to Run a Pub*⁴ yn cynnwys gwybodaeth defnyddiol o ran rhoi arweiniad i ddarpar landlordiaid. Ynndo mae'r awdur wedi dyfalu costau nodweddiadol ar gyfer gwahanol fathau o dafarndai.

95. Mae un model yn disgrifio tafarn gymunedol fechan sy'n cael ei arwain gan werthiannu "gwlyb" ac wedi ei fodelu ar drosiant o gwmpas £4,000 - £5,000 yr wythnos (£220 - £250k y flwyddyn). Mae'n rhoi dadansoddiad o gostau gweithredol nodweddiadol. Defnyddiwyd y model hwn i wirio'r rhagdybiaethau a wnaed ar gyfer Tafarn yr Heliwr.

96. Mae **Tabl 4** drosodd yn gosod allan y model y sylfaenwyd trosiant y Bar arno. Mae'r tabl yn dangos proffil gwerthiant ar gyfer wythnos cyfartalog yn y Gwanwyn/Hydref fesul diwrnod a math o werthiant.

⁴ www.howtorunapub.co.uk

TABL 4 RHAGDYBIAETHAU GWERTHIANT DIODYDD

Diwrnod	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul	Wythnos	Tymor
Gwanwyn/Hydref									
Cwrw	60	60	119	119	297.5	297.5	60	1012	1012
Gwin	24	24	48	48	120	120	24	408	408
Gwirodydd	60	60	119	119	297.5	297.5	60	1012	1012
Meddal	16	16	32	32	80	80	16	272	272
Creision	4	4	8	8	20	20	4	68	68
Cyfanswm	163	163	326	326	815	815	163	2771	2771

Rhagdybiaethau

Cwrw = £3.50 y peint

Gwin = £3 y gwydriad 175ml

Gwirodydd = £3.50 y diod

Diodydd Meddal + £2 yr un

Creision = £1 yr un

97. Mae'r proffil hwn wedi ei addasu wedyn i ystyried effeithiau tymhorol gan ragdybio y bydd gwerthiant yr Haf ar gyfartaledd 25% yn uwch na'r Gwanwyn a'r Hydref a gwerthiant y Gaeaf 25% yn is na'r tymhorau ysgwydd. Rhagdybiwyd tymhorau'r Haf a Gaeaf fel rhai 10 wythnos yr un tra bo tymhorau'r Gwanwyn a Hydref yn 16 wythnos yr un.
98. Mae eithriadau i dawelwch cyffredinol y Gaeaf. Gellir disgwyl prysurdeb ychwanegol dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac hyd at 8- 10 diwrnod o emau rygbi rhyngwladol Cymru (Cyfres yr Hydref a'r Chwe Gwlad). Diystyriwyd rhain i bwrpas y model ond fe allai rhain ychwanegu trosiant o hyd at £5-6,000 at y ffigur blynyddol.
99. O drosi'r rhagdybiaethau hyn yn wythnosol, tymhorol a blynyddol mae'r cyfanswm yn rhoi gwerthiant wedyn o £144,000 y flwyddyn (**Tabl 5**).

TABL 5 Y MODEL GWERTHIANT DIODYDD

	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul	Wythnos	Tymor
Gwanwyn	163	163	326	326	815	815	163	2771	44336
Haf	204	204	408	408	1019	1019	204	3464	34638
Hydref	163	163	326	326	815	815	163	2771	44336
Gaeaf	122	122	245	245	611	611	122	2078	20783
Cyfanswm	652	652	1304	1304	3260	3260	652	11084	144092

Bwyd

100. Mae'r Bwrdd Cysgodol wedi ystyried a thrafod pa fath o ddarpariaeth bwyd fydd Yr Heliwr yn ei gynnig. Maent wedi cytuno mai'r pwyslais fyddai ar ddarparu pryduau syml, cartrefol ac na fyddai lawer o angen sgiliau soffistigedig ceginol i ddarparu hynny. I bwrpas yr ymarfer hwn rhagdybiwyd y byddai bwyd yn cael ei gynnig ar benwythnosau yn unig ac yn arwain at werthiant ar gyfartaledd o £7.50 y pen a chyfanswm o 25 pryd y nos. Mae hwn eto wedi ei addasu ar gyfer y tymhorau. Mae **Tabl 6** yn dangos y model a ddefnyddiwyd.

TABL 6 Y MODEL GWERTHIANT BWYD

Diwrnod	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul	Wythnos	Tymor
Gwanwyn	0	0	0	0	187.5	187.5	187.5	562.5	9000
Haf	0	0	0	0	234	234	234	703	7031
Hydref	0	0	0	0	187.5	187.5	187.5	563	9000
Gaeaf	0	0	0	0	188	188	188	563	5625
Cyfanswm	0	0	0	0	796.875	796.875	796.875	2390.625	30656.25

101. Mae'r model yn cynnig rhagolygon gwerthiannau o £30,656 y flwyddyn.

Gosod ystafelloedd.

102. Datblygwyd proffil incwm ar gyfer gosod ystafelloedd sy'n gyfuniad o ragdybiaethau am bris a deiliadaeth ystafelloedd. Wedi ystyried nifer, natur ac ansawdd yr ystafelloedd – a'r gystadleuaeth – ystyriwyd mai priodol fyddai i'r Cwmni

gynnig pris sydd ychydig yn uwch na graddfeydd hostelau ond ychydig yn is na gwestai bach.

103. Mae'r pris hefyd yn amrywio yn ôl y math o ystafell. Mae **Tabl 7** isod yn crynhoi'r rhagdybiaethau hyn.

TABL 7 RHAGDYBIAETHAU PRIS (YSTAFELL + TYMOR)

	Tymor			
Math o Ystafell	Gaeaf	Gwanwyn	Haf	Hydref
Ystafell Ddwbl	£50	£55	£60	£55
Ystafell Bync	£80	£82.50	£100	£82.50

104. Amryweb arall sy'n allweddol hefyd yw'r rhagdybiaeth a wneir am ddeiliadaeth yr ystafelloedd. Yr ydym wedi edrych ar broffil deiliadaeth ar y sectorau llety perthnasol (gwely a brecwast a hostelau) ar gyfer Cymru. Mae **Tabl 8** yn dangos proffil deiliadaeth diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer y sectorau hyn yng Nghymru ar gyfer 2017.

TABL 8 PROFFIL DEILIADAETH SECTORAU PERTHNASOL (CYMRU 2017)


Sector	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh
G a B	2 0	2 5	2 7	4 3	4 1	4 8	5 3	5 6	4 7	3 4	2 2	1 6
Hostelau	2 8	3 9	4 6	6 2	5 4	6 3	6 6	7 3	5 4	4 8	3 7	3 7
Cyfartaledd yr Uchod	2 4	3 2	3 6	5 2	4 7	5 6	6 0	6 4	5 0	4 1	2 9	2 6

Ffynonell Croeso Cymru 2018

105. Mae ystadegau ar gyfer y cyfnod mwyaf diweddar hefyd yn awgrymu fod twf yn y sectorau perthnasol. Mae Arolwg Deiliadaeth diweddaraf Croeso Cymru ar hostelau yn awgrymu y bu twf cyson mewn cyfraddau cyfartalog blynyddol o 42% yn 2013 i 53% yn 2017 – cynydd o 26% yn y defnydd cyfartalog (**Ffigur 5**)

FFIGUR 8 DEFNYDD GOFODAU GWELY HOSTELAU CYMRU

Ffigur 5: Cyfraddau misol defnydd misol lleoedd gwely hostelau ar gyfer 2016 a 2017



Ffynhonnell Croeso Cymru (Chwefror 2018) Arolwg Defnydd Llety Twristiaeth Cymru mis Ioanwr i mis Rhagfyr 2017

106. Gan fod rhain wedi eu seilio ar sectorau sy'n weddol aeddfed fe addaswyd y rhagdybiaethau misol ar gyfer y cynllun busnes i rhai weddol geidwadol i ystyried newydd-deb y busnes a'r math o fusnes. Mae **Tabl 9** yn crynhoi'r rhagdybiaethau a wnaed ar gyfer dyfalu'r llif arian.

TABL 9 RHAGDYBIAETHAU DEILIADAETH LLETY ARALL 2021(CANRANNAU)

	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh
Rhagdybiaethau Tafarn yr Heliwr	20	25	33	43	48	50	60	65	50	40	30	25

107. Rhagdybiwyd mai dyma fydd y proffil erbyn Blwyddyn 3 (2022/23) gyda'r gyfradd ddeiliadaeth yn adeiladu'n gyson rhwng 2020 a 2022. Rhagdybiwyd y byddai'r cyfraddau fel ganlyn:

- 2021/22 – 85% o ffigur 2022/23;

- 2019/20 – 85% o ffigur 2021/22(wedi cyfnod is yn y Chwarter 1);

108. Yn olaf, rydym wedi rhagdybio y bydd elfen o dan-daliadaeth gyda'r ystafelloedd lle byddwn yn codi pris gostyngol. Rhagdybiwyd y byddai 25% o'r gosodiadau ar y pris gostyngol hwn.

109. Mae **Tabl 10** yn gosod allan proffil y nifer o nosweithiau gosod (fesul ystafell ac fesul person) a ragdybiwyd y bydd yn aros fesul mis (2022/23).

TABL 10 RHAGDYBIAETHAU NIFER Y NOSWEITHIAU FESUL MIS

Sector	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh
Ystafelloedd Dwbl(2)	12(22)	14(25)	20(36)	24(42)	30(52)	30(53)	37(65)	40(71)	30(53)	25(43)	18(32)	8(13)
Ystafell Bync	6(25)	10(43)	12(51)	15(62)	16(70)	17(74)	21(88)	24(103)	15(62)	15(65)	8(33)	4(17)
Cyfanswm	94	83	121	145	185	203	247	246	191	159	87	38

110. Mae **Tabl 11** yn dangos y tŵf hwn yn ystod dwy flynedd gyntaf weithredol.

TABL 11 GWERTHIANT GROS YSTAFELLOEDD (YN CYNNWYS TAW A COMISIWN)

Blwyddyn	Gwerthiant Gros Ystafelloedd (£)
2020/21	£20,320
2021/22	£23,906
2011/23	£28,125

Incwm Arall

111. Mae'n debyg y gellir rhagdybio y bydd modd i'r Heliwr gynnal digwyddiadau a chyfarfodydd yn yr eiddo. I bwrpas y model drafft hwn rhagdybiwyd na fyddai'r Cwmni yn codi ffi ar gyfer digwyddiad neu gyfarfod ond yn hytrach fod ariian i'w wneud o'r bar neu werthiant bwyd.

112. Mae **Tabl 12** drosodd yn crynhoi'r darlun o ran ffynonellau incwm erbyn 2022/23.

TABL 12 PROFFIL DERBYNIADAU ERBYN 2022/23

RHAGOLWGW Llif Arian - Tafarn yr Heliwr Cyf. - FINANCIAL FORECASTS														
2022/23														
Rhif Mis	Month Number	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	CYFANSWM
Mis	Month	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hydref	Tach	Rhag	Ion	Chwef	Mth	
CYFALAF	CAPITAL													
INCWM	INCOME													
CYFANSWM INCWM	TOTAL INCOME	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
GWARIANT	EXPENDITURE													
Dodrefnu ac Offer	Furniture and Equipment										10000			10000
CYFANSWM GWARIANT	TOTAL EXPENDITURE	0	0	0	0	0	0	0	0	0	10000	0	0	10000
INCWM	INCOME													
Diodydd	Drinks	11084	13855	11084	13855	17319	11084	13855	8313	10391	8313	8313	11084	138550
Bwyd	Food	2250	2813	2250	2813	3516	2250	2813	2250	2813	2250	2250	2250	30516
Llety	Accommodation	2347	2781	2863	4086	4584	2669	2425	1401	629	1001	1371	1969	28125
Derbyniadau Eraill (Other Receipts	111	139	111	139	173	111	139	83	104	83	83	111	1386
CYFANSWM INCWM	TOTAL INCOME	15791	19587	16308	20892	25592	16114	19231	12047	13937	11647	12017	15414	198576
Taliadau TAW Net	Net VAT Payments	2889	0	0	4726	0	0	5801	0	0	3870	0	0	17286
CYFANSWM TALIADAU TAW	TOTAL VAT PAYMENTS	2889	0	0	4726	0	0	5801	0	0	3870	0	0	17286
CYFANSWM TROSIANT NET	TOTAL NETTURNOVER	12903	19587	16308	16166	25592	16114	13430	12047	13937	7777	12017	15414	181290

Costau

113. Rhagdybiaethau

- Cost Prynianau
- Diodydd – 45% o bris gwerthiant
- Bwyd – 50% o bris gwerthiant
- Llety – Comisiwn yn 15% o bris gwerthiant

Noder – mae elw crynswth ar gyfartaledd y diwydiant ar werthiant bwyd a diod yn ôl adroddiad mainc nodi'r BBPA yn amrywio yn ôl y math o dafarn ond ar gyfartaledd tua 10 pwynt canran yn uwch. Mae'r rhagdybiaethau uchod yn weddol geidwadol felly.

114. Cyflogau (prif elfennau)

- Cyflogaeth – cyfateb i 65 awr yr wythnos (staff bar a glanhau)
- Gorbenion – tua 20%

115. Costau Eiddo (prif elfennau)

- Treth Cyngor - Gostyngiad 80% oherwydd statws budd cymunedol
- Gwres a Golau – tua £1080 y flwyddyn (£90 y mis).
- Ailgylchu a Gwastraff
- Cynnal a Chadw ac Atgyweirio

116. Costau Gweinyddu Cyffredinol

- Yswiriant
- Papur, argraffu
- Cysylltiad Rhynggrwyd/Ffôn
- Geinyddu Ariannol

117. Cyfreithiol a Phroffesiynol

- Marchnata
- Cyfrifyddol

118. Mae **Tabl 13** drosodd yn crynhoi'r darlun o ran costau gweithredol.

TABL 13 PROFFIL COSTAU FESUL MIS (2022-23)

GWARIANT	EXPENDITURE																
Cost Pryniannau																	
	cwrw,Gwin a Gwirodydd	Beers,Wies,Spirits	4988	6235	4988	6235	7793	4988	6235	3741	4676	3741	3741	4988	62348		
	Bwyd	Food	1125	1406.25	1125	1406.25	1757.813	1125	1406.25	1125	1406.25	1125	1125	1125	15258	77605	46%
Taliadau TAW Net	Net VAT Payments		4502	0	0	5859	0	0	6940	0	0	5039.50	0	3181	25521	25521	15%
<i>Costau Staff a Gweinyddu</i>	<i>Staffing and Administrative Costs</i>																
<i>Costau Cyflogaeth</i>																	
	Cyflogau	Wages	1480	1850	1480	2700	2700	1480	1850	1480	1850	1850	1480	2190	22390		
	YG/Pensiwn	NI/Pension	296	296	296	296	296	296	296	296	296	296	296	296	3552		
	Glanhau	Cleaning	450	465	450	465	465	450	465	450	465	465	420	465	5475		
															31417	21%	
Costau Eiddo																	
	Treth Cyngor	Council Rates	93	93	93	93	93	93	93	93	93	93	0	0	925		
	Treth Dŵr	Water Rates	0	0	0	500	0	0	0	0	0	500	0	0	1000		
	Gwres a Golau	Light and Heat	90	90	90	90	90	90	90	90	90	90	90	90	1080		
	Ffon/rhyngwyd	Broadband/ phone	62.4	62.4	62.4	62.4	62.4	62.4	62.4	62.4	62.4	62.4	62.4	62.4	749		
	Ailgylchu a Gwastraff	Recycling and Waste	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	1200		
															4954	3%	
Costau Gweinyddu Cyffredinol																	
	Post a Papur/swyddfa	Post, paper office costs	10	10	10	10	10	10	10	10	10	10	10	10	120		
	Yswiriant	Insurance	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	1200		
	Costau cardiau	Costs of cards	333	416	333	416	520	333	416	249	312	249	249	333	4157		
	Cost Banc	Bank Costs	20	20	20	20	20	20	20	20	15	15	15	20	225		
	Cost Gor-Ddrafft	Overdaft costs	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0		
	Cynnal a chadw	Repairs and Maintenance	200	0	0	0	200	0	0	0	200	0	0	0	600	6302	4%
Costau Cyfreithiol a Phroffesiynol																	
	Costau proffesiynol	Professional Costs	0	0	0	0	0	0	0	0	500	0	0	0	500		
	Marchnata	Marketing	100	0	0	100	0	0	100	0	0	200	0	0	500		
	Trwyddedau	Licences				500									500		
															1500	1%	
CYFANSWM GWARIANT GWEITHREDOL	GROSS OPERATING COSTS		13948	11143	9146	18951	14207	9146	18182	7816	10175	13936	7689	12960	147299	147299	
Llog Cyfranddaliadau Sylfaenu	Founder Shareholder interest																
Llog Cyfranddaliadau	Shareholder interest																
Llog Benthycwyr Preifat	Private Loans Interest																
Ad daliad benthyciadau	Mortgage Repayments																
Ad daliad benthyciadau	Other Loan Repayments																
CYFANSWM AD-DALIADAU/LLŌG	TOTAL REPAYMENTS/INTEREST		0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0		
CYFANSWM GWARIANT REFENIŴ	TOTAL REVENUE EXPENDITURE		13948	11143	9146	18951	14207	9146	18182	7816	10175	13936	7689	12960	147299		

Crynodeb Ariannol

119. Mae **Tabl 14** isod yn crynhoi dangosyddion allweddol y busnes.


TABL 14 INCWM A CHOSTAU 2020/21 – 2022/23

		2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Refeniw Gross (heb TAW)	Gross Operating Revenue (ex VAT)	0	94259	£ 120,824.70	£ 150,274.12	£ 181,290.20	£ 190,099.43	£ 194,332.37
Costau Gweithredol Gross (heb TAW)	Gross Operating Costs (hebTAW)	570	£ 95,798.49	£ 116,056.04	£ 139,347.42	£ 154,418.65	£ 161,076.94	£ 167,642.90
Syrffed Gweithredol	Operating Surplus	-£ 570.00	-£ 1,539.75	£ 4,768.66	£ 10,926.70	£ 26,871.55	£ 29,022.50	£ 26,689.48
Syrffed Gweithredol %	% Operating Surplus		-1.6%	3.9%	7.3%	14.8%	15.3%	13.7%


